# Rheolau Rygbi 7 bob ochr
## Rheolau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol

### 1) Trefn Cystadlu

Bydd cofrestru yn agor o 9:00yb gyda gemau yn cychwyn am 10:20 ac yn rhedeg hyd at 18:30. Bydd fwy o fanylion am yr amseroedd gemau ar gael ar ein gwefan neu trwy ein system canlyniadau SOCS.

Gemau uchafswm o 7 munud yr hanner gydag uchafswm o funud am hanner amser. Bydd dim amser ychwanegol o ganlyniad anafiadau yn cael ei ychwanegu.

**2) Draw –** Mae blynyddoedd wedi ei grwpio gan ei fod yn dilyn yr un trefn

**Bechgyn Bl. 7-8**

- 1af a 2ail o bob grŵp yn mynd trwy i 8 olaf Cwpan
- 3ydd a 4ydd o bob grŵp yn mynd trwy i 8 olaf Plat

**Merched Bl.7**

- 1af o'r ddau grŵp i ffeinal y cwpan
- 2ail o'r ddau grŵp i ffeinal y plat

**Bechgyn Bl.9-10**

- 1af o'r ddau grŵp i ffeinal y cwpan
- 2ail o'r ddau grŵp i ffeinal y plât

**Merched Bl.8-9**

- 1af a 2ail o bob grŵp yn mynd trwy i 8 olaf Cwpan
- 3ydd a 4ydd o bob grŵp yn mynd trwy i 8 olaf Plat

### 3) Pwyntiau rowndiau grŵp

3 pwynt i enillwyr gêm, 1 pwynt am gêm gyfartal, 0 pwynt am golli.

Os mae timau yn gyfartal ar bwyntiau ar ôl pob gêm cael ei chwarae bydd y canllawiau isod yn dewis safle grŵp. Trefn isod yn dangos blaenoriaeth.

- Gwahaniaeth pwyntiau sgorio yn erbyn pwyntiau ildiwyd
- Canlyniad 'Head to Head' rhwng y timau cyfartal
- Taflu ceiniog rhwng hyfforddwyr y timau

Os mae tîm yn tynnu allan o'r gystadleuaeth cyn cwblhau pob gêm bydd 'bye' yn cael ei rhoi i bob gêm maen nhw wedi a mynd i chwarae. Bydd hwn yn `rhoi ganlyniad o 21-0 i'r tîm sydd dal yn y gystadleuaeth.

### 4) Canlyniad gêm rownd derfynol

Bydd enillwr gêm rownd derfynol yn mynd trwy i'r rownd nesaf, mi fydd y tîm sy'n colli allan o'r gystadleuaeth.

Os mae'r gêm yn gyfartal ar ôl diwedd amser arferol bydd 'cais aur' yn cael ei chwarae gydag un chwaraewr o naill dîm yn gadael y cae pob munud lawr at 1 chwaraewr yn erbyn 1. Mae'r tîm sy'n sgorio gyntaf yn symud ymlaen i'r rownd nesaf.

Os mae tîm yn tynnu allan cyn chwarae gêm rownd derfynol bydd canlyniad o 'bye' yn cael ei rhoi ar gyfer y gêm. Mi fydd y dim sydd dal yn y gystadleuaeth yn symud ymlaen i'r rownd nesaf heb chwarae.

## 5) Chwaraewyr

- Uchafswm o chwaraewyr o fewn carfan yw **14** chwaraewr
- Nid oes hawl gan bechgyn chwarae mewn categori oedran sydd ddim yn cynnwys ei flwyddyn ysgol
- Nid oes hawl gan ferched chwarae mewn categori oedran sydd ddim yn cynnwys ei flwyddyn ysgol
- Mae'r cystadlaethau yn ddilyn canllawiau un rhyw
- Nid oes hawl gan chwaraewr cystadlu ar fwy nag 1 tîm
- Nid oes hawl gan ysgolion sydd wedi ffederaleiddio cyfuno i greu timau

Mae angen llenwi ffurflen cofrestru chwaraewyr gydag enwau, dyddiad geni, a rhywedd, cyn y gystadleuaeth. Cofrestrwch eich tîm trwy clicio YMA

Mewn achos lle nad oes gan dîm 7 chwaraewr sy'n medru chwarae mae'n rhaid bod y ddau dîm yn dechrau gyda'r un nifer o chwaraewyr ar y cae.

- Os mae chwaraewr yn derbyn cerdyn melyn bydden yn cael ei hela bant o'r cae am 2 funud
- Os mae chwaraewr yn derbyn cerdyn coch bydden yn cael ei hela bant am gweddill y gêm ac bydd dim hawl gan y chwaraewr cymryd rhan yn gweddill y gystadleuaeth*

*Bydd hawl gan hyfforddwyr apelio hyn ar ôl y gêm

## 6) Eilyddion

Does dim cyfyngiadau ar nifer o eilyddion, gall gwneud newidiadau yn ystod unrhyw doriad mewn chwarae

Bydd unrhyw chwaraewr sy'n gadael y cae o ganlyniad anaf i'r pen angen cael ei asesu gan y tîm cymorth cyntaf cyn chwarae eto. Cyfrifoldeb athrawon yw sicrhau fod chwaraewyr yn cael ei hasesu.

## 7) Taliad

Mae angen talu £120 am bob tîm o leiaf mis cyn dechrau'r gystadleuaeth.

Bydd ysgolion yn gymwys i dderbyn ad-daliad o £10 am bob chwaraewr ar y ffurflen cofrestru chwaraewr oedd yn aelod i'r Urdd cyn y gystadleuaeth lan at £120. I hawlio'r ad-daliad yma plîs cysylltwch a chwaraeon@urdd.org ar ôl y gystadleuaeth.

## 8) Dyfarnu

Bydd dyfarnwyr yn cael ei apwyntio gan URC.

Mae penderfyniad y dyfarnwyr yn derfynol. Os mae unrhyw unigolion neu dimau yn amharchus i staff neu ddyfarnwyr gall arwain at y tîm yn colli ei le yn y gystadleuaeth. Darllenwch fwy am gòd ymddygiad yr Urdd yma: Cliciwch YMA

Bydd rhaid i pob tîm darparu aelod o staff fel dyfarnwr llinell ar gyfer ei gemau.

**9) Sgorio**

Bydd dyfarnwyr yn sgorio gemau. Mae'n rhaid i hyfforddwyr y ddau dîm arwyddo'r cerdyn sgôr ar ôl diwedd y gêm.

Mae'n rhaid i fechgyn a merched yn pob categori cymryd cic gollwng (drop-kick) ar gyfer trosiad.

Bydd canlyniadau pob gêm yn cael ei rhoi ar system canlyniadau SOCS. Gall pob ysgol dilyn y gystadleuaeth trwy'r rhaglen yma.

Os mae'r gwahaniaeth yn y sgôr yn cyrraedd 50 o bwyntiau mi fydd y sgôr ar y pryd yn cael eu cofnodi fel y sgôr terfynol. Os mae'r timau yn cytuno, gallan nhw barhau i orffen y gêm.

**10) Meddygol**

Dylai timau bod yn ymwybodol fod cymryd rhan mewn cystadlaethau chwaraeon yn dod a pherig anafiadau. Rydyn yn gofyn fod timau yn dod ac offer cymorth cyntaf syml megis plasteri neu dap chwaraeon.

Bydd yr Urdd yn sicrhau fod ymatebwyr cymorth cyntaf proffesiynol a therapydd chwaraeon yn bresennol yn y digwyddiad i ymateb i unrhyw anafiadau neu argyfyngau meddygol yn ystod y digwyddiad. Cyfrifoldeb athrawon yw sicrhau fod y gwasanaethau yma yn cael ei ddefnyddio a bod unrhyw bryderon iechyd yn cael ei hasesu.

Mae'n hanfodol fod timau yn cysylltu'r Urdd i sôn am unrhyw amodau iechyd perthnasol am unrhyw gyfranogwyr.

Os mae dyfarnwr yn pryderu dros iechyd unigolion mae ganddynt yr hawl i atal chwaraewyr rhag chwarae.

**11) Ffotograffiaeth a fideo byw**

Os nad ydych yn caniatáu tynnu lluniau o disgybl/disgyblion, cysylltwch â'r swyddog yr Urdd sy'n trefnu'r cystadleuaeth. Mae fwy o wybodaeth ar gael am ffotograffiaeth yn bolisi ffotograffiaeth yr Urdd: Cliciwch YMA

Bydd Cae 1 yn cael ei ffilmio a ddangos yn fyw ar cyfryngau'r Urdd. Plîs cysylltwch a chwaraeon@urdd.org os nad ydych eisiau i'ch tîm bod ar y fideo yma.

**12) Cyffredinol**

Cyfrifoldeb yr hyfforddwyr yw sicrhau fod ei thîm wrth y cae ar amser

Bydd y gystadleuaeth yn cymryd lle mewn ardal gyhoeddus. Cyfrifoldeb hyfforddwyr yw sicrhau fod plant yn ymddwyn yn ystod y dydd. Rydyn yn gofyn eich bod yn rhoi pob darn o sbwriel yn y biniau darpared.

Mae hawl gan chwaraewyr defnyddio ystafelloedd newid caeau Pontcanna. Bydd ystafelloedd ar wahân i ferched a bechgyn. **Mae'n rhaid bod oedolyn cyfrifol gyda phlant yn yr ystafelloedd newid ar bob amser.**

Maint pêl 4 ar gyfer bechgyn a merched Bl.7, Bl.8, Bl.9. Maint pêl 5 ar gyfer merched a bechgyn Bl.10, Bl.11, Bl.12-13.

**13) Gwisg**

Chwaraewyr i wisgo esgidiau gyda stydiau addas ar gyfer chwarae ar gaeau wedi clymu o flaen y tafod yn y ffordd briodol. Bydd stydiau yn cael ei asesu gan ddyfarnwyr cyn gemau.

Nid oes hawl gwisgo eitemau miniog yn y gwallt neu emwaith wrth chwarae heblaw am oherwydd resymau meddygol.

Rydyn yn awgrymu fod chwaraewyr yn gwisgo gumshield wrth chwarae

**Rheolau Chwarae**

Mae'r gystadleuaeth yn dilyn rheolau 'World Rugby', heblaw am yr isod sy'n cael eu defnyddio ar gyfer Rygbi 7 bob ochr.

- Am unrhyw gic gyntaf neu ailddechrau gem sy'n anghyfreithlon, sy'n cael eu diffinio isod, bydd cic rydd i'r tîm arall o ganol y cae
  - Ddim yn mynd 10 metr.
  - Syth allan o chwarae heb bownsio.
  - Wedi'i cicio dros y ffin gwsg o fewn yr ardal cais
  - Grounded ar unwaith, o fewn yr ardal sgorio

- Rhaid i bob cic at gôl fod yn cic adlam
- Ar ôl i tîm sgorio, nhw sy'n cicio i'r tîm arall i ail ddechrau'r gem
- Does yna ddim cic adlam o'r llinell cais (mae hen rheolau ardal gôl yn cael eu gweithredu)
- Does yna ddim gwobr am gicio 50-22
- Cerdyn felyn = 2 munud

Mi fydd unrhyw un sy'n atal cic cosb rhag cael eu cymryd yn gyflym, am unrhyw reswm, yn derbyn cerdyn melyn.

**Tacl**

Rydym nawr yn chwarae rheolau newydd 'World Rugby' wrth gysidro cyfarwyddiadau uchder tacl. Dilynwch y linc i ymgyfarwyddo eich hunain gyda'r rheolau fwyaf diweddar: Cliciwch YMA